



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Economi Ymwelwyr

Dadansoddiad o Ymatebion i'r '10 Cwestiwn – Dewch inni
Lunio'r Dyfodol'

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-949-3

Dadansoddiad o Ymatebion i'r 10 Cwestiwn

Sarah Usher
Anna Burgess
Llorenç O'Prey
Endaf Griffiths
Paula Gallagher

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehillTM
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Ymchwil Twristiaeth

Llywodraeth Cymru

Ystad Ddiwydiannol Trefforest

Trefforest

CF37 5YR

Rhif: 0300 060 4400

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
Rhestr o Dablau a Ffigurau:.....	2
1. Crynodeb.....	3
2. Cyflwyniad.....	6
3. Yr Ymatebion	6
4. Dulliau Dadansoddi	8
5. Yr Ymatebion a'r 10 Cwestiwn	9
6. Yr Ymatebion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	28
7. Casgliadau	35
8. Cyfeirnodau.....	37

Rhestr o Dablau a Ffigurau:

Tabl 3.1: Ffocws gweithgarwch twristiaeth yr ymatebwyr (n=263)6
Tabl 3.2: Prif leoliad yr ymatebwyr (n=265).....7
Ffigur 6.1: Nodau llesiant28

1. Crynodeb

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r '10 Cwestiwn – Dewch inni Lunio'r Dyfodol'. Wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu newydd, ceisiodd Croeso Cymru farn a safbwyntiau amrywiaeth o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn twristiaeth a'r economi ymwelwyr. Drwy arolwg ar-lein, digwyddiadau a gohebiaeth ysgrifenedig, gwahoddwyd rhanddeiliaid i gynnig eu barn ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y sector, yn ogystal â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd y dylai'r Cynllun Gweithredu eu hadlewyrchu ac y dylai weithio tuag atynt. Rhwng mis Mai a mis Mehefin 2019, fe wnaeth 386 o fusnesau, unigolion a sefydliadau o bob rhan o Gymru gyfrannu eu barn ar y '10 Cwestiwn'. Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion i'r '10 Cwestiwn' yn darparu awgrym o'r safbwyntiau a'r farn ar y sector, yn hytrach na datganiad pendant.

Dulliau Dadansoddi

- 1.2 Er mwyn deall barn yr ymatebwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion. Amcan y dadansoddiad oedd deall a mapio'r farn amrywiol sydd gan yr ymatebwyr, ac archwilio pa mor gyffredin yw'r safbwyntiau ar draws y gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Er mwyn deall y gwahanol farn a safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad cynnwys. Mae'r dull hwn yn mynd ati'n systematig i archwilio pob ymateb, gan dynnu sylw at y themâu a'r materion sy'n codi.

Ymatebion i'r 10 Cwestiwn

- 1.3 Roedd pob un o'r 10 cwestiwn yn ceisio archwilio mater neu her benodol sy'n wynebu'r sector, a sut dylai Croeso Cymru ymateb iddynt. Nod Cwestiwn 1, er enghraifft, oedd archwilio barn yr ymatebwyr ar ymwelwyr y dyfodol, y teimlent y byddai'n bwysig eu denu wrth ddatblygu'r economi ymwelwyr, a beth gellid ei wneud i'w hannog i aros yn hwy a gwario mwy. Mynegodd yr ymatebwyr farn a safbwyntiau amrywiol o ran ymwelwyr y dyfodol. Mae'n ymddangos bod dau safbwynt gwahanol, er enghraifft, yn ymwneud â ph'un a ddylid canolbwyntio ar ddenu ymwelwyr domestig neu ryngwladol.

- 1.4 Ar draws y 10 Cwestiwn, roedd nifer o themâu allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr ac a deimlwyd eu bod yn bwysig. Er enghraifft, mynegodd yr ymatebwyr yn gyson bod harneisio tirwedd, diwylliant ac iaith unigryw Cymru yn allweddol i ddatblygu'r cynnig i ymwelwyr. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod canolbwyntio ymdrechion ar ddatblygu ansawdd cynnyrch a gwasanaethau yn allweddol i wella profiad ymwelwyr. Roedd consensws ynglŷn â phwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys mewn cysylltedd digidol a chlodiant ac yn nhir y cyhoedd.

Yr Ymatebion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 1.5 Er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i'r economi ymwelwyr, ceisiai Croeso Cymru hefyd ystyried yr egwyddorion a'r nodau sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth arwain datblygiad y Cynllun Gweithredu, roedd Croeso Cymru yn awyddus i ystyried barn a blaenoriaethau'r ymatebwyr mewn perthynas â'r nodau Llesiant. Ceisiai'r dadansoddiad, felly, fapio a deall y perthnasoedd rhwng barn a theimladau'r ymatebwyr, yn ogystal ag amcanion pob un o'r nodau Llesiant.
- 1.6 Yn ôl y dadansoddiad, roedd meysydd sylweddol o orgyffwrdd rhwng teimlad a nodau'r Ddeddf a barn a safbwyntiau'r ymatebwyr. Roedd pwysigrwydd hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws yr economi ymwelwyr yn thema allweddol a godai mewn llawer o'r ymatebion, er enghraifft. Caiff hyn ei adlewyrchu yn un o'r nodau Llesiant allweddol, sef Cymru gydnherth, sy'n ceisio cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Casgliadau

- 1.7 Yn ôl y dadansoddiad, roedd consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd twristiaeth a'r economi ymwelwyr i gymunedau ledled Cymru. Ymhellach, roedd meysydd eang o gytundeb ynglŷn â'r angen i wella profiad ymwelwyr, a sicrhau bod y sector yn rheoli a lleihau effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd. Lle'r oedd meysydd o gytundeb ymysg yr ymatebwyr, tueddai'r rhain i fod yn ymwneud â materion, heriau a themâu trosfwaol, fel pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith, hyfforddiant a datblygu.

- 1.8 Lle mae llai o gytundeb ymysg yr ymatebwyr, tueddai hyn i ganolbwyntio ar yr union ateb neu flaenoriaeth o ran her sy'n wynebu'r sector. Mae hyn yn cynnwys p'un a ddylid canolbwyntio ymdrechion ar ddenu ymwelwyr domestig neu ryngwladol, a pha farchnadoedd rhyngwladol y dylid eu blaenoriaethu gan Groeso Cymru. Gwella ansawdd y cynnig i ymwelwyr oedd y thema fwyaf trawiadol ar draws yr ymatebion, ond llai amlwg oedd sut y dylid cyflawni hynny, wrth i'r ymatebwyr gynnig amrywiaeth eang o awgrymiadau ac atebion.
- 1.9 Mae'r meysydd lle mae'n ymddangos bod anghytuno yn dangos mor amrywiol yw'r sector ac nad oes barn glir neu gyson gan y diwydiant. Serch hynny, mae meysydd pwysig o gytundeb y gallai'r Cynllun Gweithredu i'r dyfodol eu hystyried er mwyn canfod bwriad cyffredin.


2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r '10 Cwestiwn – Dewch inni Lunio'r Dyfodol'. Ei fwriad yw cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd Croeso Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr. Bydd y Cynllun Gweithredu yn amlinellu sut bydd Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r economi ymwelwyr, gan weithio i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn elwa o fuddion twristiaeth.
- 2.2 Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, mae Croeso Cymru yn bwriadu ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid ehangach er mwyn archwilio a nodi blaenoriaethau'r dyfodol i dwristiaeth a'r economi ymwelwyr. Gofynnwyd 10 o gwestiynau i'r ymatebwyr a archwiliai eu barn ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r sector. Ymhellach, gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyfrannu eu barn ar-lein, drwy'r post, drwy gyfweiliadau ac mewn digwyddiadau rhanbarthol.

3. Yr Ymatebion


- 3.1 Rhoddodd cyfanswm o 386 o fusnesau, unigolion a sefydliadau eu hamser i ymateb i'r '10 Cwestiwn'. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â diddordeb yn yr economi ymwelwyr, gan gynnwys busnesau, atyniadau ymwelwyr, grwpiau diddordeb arbennig, a sefydliadau sector cyhoeddus:

Tabl 3.1: Ffocws gweithgarwch twristiaeth yr ymatebwyr (n=263):



3.2 Derbyniwyd ymatebion hefyd gan fusnesau, unigolion a sefydliadau o bob rhan o Gymru a'r Deyrnas Unedig ac o dramor:

Tabl 3.2: Prif leoliad yr ymatebwyr (n=265)



3.3 Ni wnaeth 121 o'r ymatebwyr gynnig gwybodaeth a fyddai'n nodi ym mha ranbarth y maent yn seiliedig (31.3 y cant), ac ni wnaeth 123 ddarparu gwybodaeth am ba fath o sefydliad maen nhw'n ei gynrychioli (31.9 y cant).

3.4 Y mae hefyd yn bwysig cadw mewn cof nad yw'r ymatebwyr i'r '10 Cwestiwn' o anghenraid yn gynrychioliadol o'r gymuned ehangach o fusnesau, unigolion a sefydliadau sy'n rhan o'r sector yng Nghymru. Gan i bawb gael eu hannog i gyflwyno eu barn, mae unigolion a sefydliadau sydd mewn gwell sefyllfa i ymateb ac sy'n barod i gyfranogi, yn fwy tebygol o wneud. Gallai fod unigolion neu sefydliadau eraill nad oedd mewn modd i gyfrannu barn. Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion i'r '10 Cwestiwn' yn rhoi awgrym o farn a safbwyntiau ar y sector, yn hytrach na datganiad pendant.

4. Dulliau Dadansoddi

- 4.1 Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr, ym mis Mehefin 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i gynnal dadansoddiad gyda'r bwriad o:
- Ddeall a mapio'r **amrywiaeth o farn a safbwyntiau** sydd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â dyfodol yr economi ymwelwyr yng Nghymru
 - Asesu **pa mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol** ar draws y gwahanol grwpiau o randdeiliaid ac fel sector cyfan.
- 4.2 Er mwyn deall y gwahanol farn a safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad cynnwys. Mae'r dull hwn yn mynd ati'n systematig i archwilio pob ymateb, gan dynnu sylw at themâu a materion sy'n codi. Gall y dadansoddiad wedyn archwilio pa mor gyffredin yw pob thema neu syniad ar draws yr ymatebion. Mae'r materion a'r themâu a gaiff eu codi gan yr ymatebwyr wedyn yn cael eu mapio'n erbyn pob un o'r 10 cwestiwn, yn ogystal â'r nodau sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 4.3 Oherwydd bod tebygrwydd o hunan-ddethol, ni aethom ati i gyfri sawl ymatebydd sydd â barn benodol. Dull ansoddol a ddefnyddiwyd yn bennaf, gyda'r nod o ddeall amrywiaeth y materion allweddol a gaiff eu codi gan yr ymatebwyr, ynghyd â'r rhesymau dros y farn honno. Mae hyn yn cynnwys meysydd posibl o gytuno ac anghytuno rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr.
- 4.4 Wrth gyflwyno'r canlyniadau, ceisiom ddarparu darlun eang o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion. Caiff amrywiaeth o dermau ansoddol eu defnyddio i fynegi cyffredinolrwydd, gan gynnwys 'llawer', 'rhai', 'y rhan fwyaf' ac 'ychydig'. Rhaid i ddehongliad o gydbwysedd barn gael ei ystyried yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd, am na wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, ac ni wnaeth pob ymatebydd ddarparu digon o wybodaeth i ddeall eu safbwynt yn union. Yn hyn o beth, awgrymu barn sy'n berthynol i'r cwestiynau ar sail y rhai a ymatebodd yn unig a wna'r termau ansoddol. Ni ellir tybio, felly, eu bod yn cysylltu'n rhifiadol yn ôl i gyfanswm nifer y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd, nac i'r economi ymwelwyr yn ehangach.
- 4.5 Mae'r adroddiad yn awr yn troi at amlinellu canlyniadau'r dadansoddiad.

5. Yr Ymatebion a'r 10 Cwestiwn

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r themâu a'r materion allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â phob cwestiwn, gan eu cymryd yn eu tro.

Cwestiwn 1: Pwy yw ymwelwyr y dyfodol?

5.2 Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o bwy mae'r ymatebwyr yn rhagweld fydd yn bwysig i sector twristiaeth Cymru, gofynnwyd i'r ymatebwyr pwy maent yn meddwl fydd ymwelwyr y dyfodol. Roedd y cwestiwn hefyd yn cynnwys yr is-gwestiynau canlynol:

- Pwy ydym eisiau eu denu yn y dyfodol?
- Sut gallwn eu hannog i ddod yma drwy gydol y flwyddyn, aros yn hwy a gwario mwy?

5.3 Mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau ynglŷn ag ymwelwyr y dyfodol. Mae'n ymddangos bod yma ddau safbwynt gwahanol ynglŷn â ph'un ai ymwelwyr domestig neu ryngwladol sy'n cynrychioli dyfodol twristiaeth yng Nghymru. Fe wnaeth cyfrannau tebyg o ymatebwyr dynnu sylw at naill ai ymwelwyr rhyngwladol neu ddomestig.

5.4 Yn yr achosion hynny lle'r oedd yr ymatebwyr yn tynnu sylw at ymwelwyr domestig, cynigiwyd amrywiaeth o resymau. Dadleuai rhai y gallai canolbwyntio ar hyrwyddo twristiaeth ddomestig leihau effaith amgylcheddol gyffredinol yr economi ymwelwyr. Roedd eraill wedyn yn awgrymu pwysigrwydd annog ymwelwyr domestig yn sgil penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Meddai un ymatebydd:

Mae angen inni fanteisio ar y duedd o ragor o deithiau domestig yn sgil Brexit a phobl yn dechrau deall effaith amgylcheddol negyddol hedfan.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 40: C1

Yn yr achosion lle nodwyd pwysigrwydd ymwelwyr rhyngwladol, cyfeiriwyd at y budd economaidd y byddai ymwelwyr rhyngwladol yn ei gyflwyno i Gymru:

Yn fy marn i, ymwelwyr o dramor fydd ymwelwyr y dyfodol. Mae angen inni ddechrau defnyddio'r ffaith bod y bunt wedi gwanhau i'n mantais a denu pobl o dramor i brofi ein hamgylchoedd gwych a chael mwy o werth o'u gwyliau.

Trefnwr Digwyddiadau, Ymateb 43: C1

- 5.5 Awgryma hyn bod amrywiaeth eang o farn gan randdeiliaid yn yr achos hwn a allai amrywio yn ôl cyd-destun a phrofiad. O archwilio barn gwahanol grwpiau o ymatebwyr, nid oedd tuedd benodol i'w gweld yn eu safbwyntiau.
- 5.6 Roedd hollt debyg yn y farn rhwng dull wedi'i dargedu i ddenu ymwelwyr ac ymagwedd agored, gynhwysol. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai ffocws ymdrechion i ddenu ymwelwyr gael ei dargedu, gan gynnwys apelio at segmentau penodol o ymwelwyr sydd â diddordebau neu hobiau fel cerdded. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr a deimlai y dylai Cymru fod yn agored a chroesawgar i bawb. Unwaith eto, nid yw'n ymddangos bod tuedd glir o ran y farn ar draws gwahanol grwpiau o ymatebwyr.
- 5.7 Roedd yr ymatebwyr hefyd yn fwy penodol wrth nodi ymwelwyr y dyfodol. Pwysleisiodd llawer bwysigrwydd denu teuluoedd. Teimlai eraill mai pwysig yw cyflwyno Cymru i genhedlaeth iau. Ymhellach, teimlai rhai y gallai'r economi ymwelwyr wneud mwy i ddenu ymwelwyr anabl, neu oedolion hŷn. Roedd eraill, wedyn, yn pwysleisio pwysigrwydd denu ymwelwyr rheolaidd.
- 5.8 Wrth ystyried pwy ddylai ymwelwyr y dyfodol fod, myfyriai rhai ymatebwyr ar bwysigrwydd denu twristiaid a fyddai'n fwy tebygol o wario mwy ar eu profiad. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r segment hwn yn ymatebol i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, y dirwedd naturiol, a chynnyrch o Gymru a fyddai, yn ei dro, yn economaidd fuddiol i'r economi Bwyd a Diod, sy'n parhau i fod yn sector arall o flaenoriaeth.

Mae ymwelwyr canol/uwch sy'n gwerthfawrogi cynhwysion a diodydd o ansawdd o Gymru yn hunandanwyr/archwilwyr sydd o bosibl â diddordeb yn y dirwedd a diwylliant.

Busnes Bwyd a Diod, Ymateb 74: C1

- 5.9 Pan ofynnwyd sut gall Croeso Cymru a sector twristiaeth Cymru yn ehangach annog ymwelwyr y dyfodol i ymweld drwy gydol y flwyddyn, aros yn hwy a gwario mwy, awgrymodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr bod angen i'r cynnig trosfwaol i ymwelwyr ddarparu ansawdd cyson uchel. Yn hynny, awgrymai'r ymatebwyr fod angen amrywiaeth ehangach o atyniadau a gweithgareddau o ansawdd uchel ac ansawdd uwch o lety ac adloniant. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau profiad cadarnhaol i'r ymwelwyr ac yn eu hannog i ddychwelyd.

Rydym eisiau denu unrhyw un a fydd yn cael pleser o fod yng Nghymru ac a fydd yn mynd adref â theimladau cadarnhaol amdano, gan annog eraill i ymweld a dychwelyd eu hunain. Mae angen i ni sicrhau bod gennym gyfleoedd hamdden o ansawdd uchel sy'n addas i bob tywydd ac ar bob adeg o'r flwyddyn. I alluogi i hyn ddigwydd, mae angen i ddarparwyr gydlynu â'i gilydd ynglŷn â'r cynnig i dwristiaid.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 141: C1

- 5.10 Yn ychwanegol, pwysleisiodd yr ymatebwyr bod angen marchnata'n well, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru. Pwysleisiai eraill fod angen datblygu cynnig amgylcheddol gwell, gan wella mynediad, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n cynorthwyo ymgysylltiad â'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys hyrwyddo ecodwristiaeth. Pwysleisiai eraill wedyn bwysigrwydd buddsoddi mwy mewn seilwaith, e.e. cysylltiadau cludiant yn ogystal â chyfleusterau eraill fel toiledau.

Cwestiwn 2: Sut gallwn fod yn rhyngwladol?

- 5.11 Wrth archwilio sut dylai'r Cynllun Gweithredu ymgysylltu ag ymwelwyr rhyngwladol â'u hannog i ymweld â Chymru, ceisiai Cwestiwn 2 archwilio barn yr ymatebwyr ar sut gallai hyn gael ei gyflawni. Roedd hefyd nifer o is-gwestiynau:

- A yw anghenion ymwelwyr rhyngwladol yn wahanol i anghenion ymwelwyr domestig?
- Tra eu bod yn profi diwylliant Cymru, sut gallwn ni ddangos parch at eu diwylliant hwy?
- Sut gallwn roi croeso iddynt?
- Sut gallwn sicrhau bod Cymru'n wahanol i weddill y Deyrnas Unedig?
- Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar Iwerddon, yr Almaen ac UDA – ond ble mae marchnadoedd rhyngwladol y dyfodol?

- 5.12 Gan ymateb i'r cwestiwn a yw anghenion ymwelwyr rhyngwladol yn wahanol i anghenion ymwelwyr domestig, awgrymodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr eu bod yn wahanol. Yn yr achosion hyn, awgrymai'r ymatebwyr fod y gwahanol ddiwylliannau'n golygu y gallai fod gan ymwelwyr rhyngwladol anghenion gwahanol, gan bwysleisio'n benodol ddisgwyliadau ymwelwyr mewn perthynas â phrofi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru:

Mae anghenion a disgwyliadau ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn debygol o ganolbwyntio ar ddarganfod profiad Cymreig go iawn, o ansawdd, synnwyr o le, gwerth am arian, gyda tharddiad lleol cryf a'i bod yn wahanol i farchnadoedd eraill.

Unigolyn, Ymateb 323: C2

Roedd yr ymatebwyr hynny a awgrymai fod gan ymwelwyr rhyngwladol anghenion gwahanol hefyd yn pwysleisio anghenion ymarferol eraill fel rhwystrau iaith ac opsiynau cyfyngedig o ran cludiant, e.e. ymwelwyr sy'n teithio heb gar.

- 5.13 Fel yn achos Cwestiwn 1, roedd yn gyffredin i'r rhai a ymatebodd i Gwestiwn 2 bwysleisio bod angen arddangos yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel ffordd i sicrhau bod Cymru yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig. Gan gyd-fynd â'r nod Llesiant ynglŷn â hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, awgrymodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y dylai hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fod yn ganolog i unrhyw Gynllun Gweithredu i'r dyfodol.

I wahaniaethu rhyngom â gweddill y Deyrnas Unedig, mae angen inni gydnabod ein diwylliant, ein tirwedd a'n hanes nodedig, sy'n golygu bod angen i ni (fel y diwydiant twristiaeth) ddeall, cydnabod a gwerthfawrogi pob agwedd ar y wlad fach hon.

Rhan o'r Diwydiant Twristiaeth, Ymateb 157: C2

Mae Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith bod ganddi rai o'r tirweddau a'r arfordiroedd mwyaf amrywiol yn Ewrop, a diwylliant cryf, traddodiadol, sy'n cael ei chydnabod ledled y byd.

Awdurdod Lleol, Ymateb 22: C2

- 5.14 O ran y cwestiwn sut i wahaniaethu rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, roedd consensws ymysg yr ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd gwella ansawdd y cynnig i dwristiaid. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid da, gan gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a/neu gynnyrch o ansawdd uchel o Gymru. Ymhellach, roedd llawer o'r ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo delwedd o Gymru fel cyrchfan twristiaeth o ansawdd uchel yn ei rhinwedd ei hun.
- 5.15 Ymysg yr ymatebwyr, mae'n ymddangos nad oes consensws clir ar y marchnadoedd rhyngwladol penodol y dylai Croeso Cymru fod yn eu targedu yn y dyfodol. Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn fod marchnadoedd datblygol yn cynnig

potensial sylweddol, gan gynnwys Tsieina, Rwsia a Malaysia. Ymhellach, pwysleisiai eraill bwysigrwydd cynnal a chryfhau cysylltiadau â gwledydd sy'n siarad Saesneg gan gynnwys UDA, Iwerddon, Seland Newydd ac Awstralia. Roedd eraill wedyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymwelwyr o wledydd Ewropeaidd gan gynnwys Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Denmarc a'r Almaen.

- 5.16 Nid oedd bob amser yn glir sut y ffurfiodd yr ymatebwyr eu barn wrth enwi marchnad ryngwladol benodol. Nid oedd chwaith yn glir oddi mewn i lawer o ymatebion unigol ac ar draws yr ymatebion hynny p'un a ddylai Croeso Cymru ganolbwyntio ar segmentau penodol oddi mewn i'r marchnadoedd a enwir, neu a ddylai ymdrechion hyrwyddo gael eu hanelu'n ehangach. Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd archwilio'r cwestiwn hwn ymhellach:

Pa bynnag farchnad mae Croeso Cymru yn ei blaenoriaethu, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn sicrhau bod gennym y farchnad iawn i gyd-fynd â'n cynnyrch – mae ein cynnyrch yn llawer anoddach i'w newid na'n cyllideb hysbysebu. Gellid gwneud mwy o ymchwil i ba farchnadoedd sy'n cydweddu'n dda â Chymru.

Llety, Ymateb 96: C2

Cwestiwn 3: Beth sydd ei angen ar ein hymwelwyr?

- 5.17 Ceisiai Cwestiwn 3 ddeall barn yr ymatebwyr ar ddiwallu anghenion a chyflawni disgwyliadau ymwelwyr. Roedd nifer o is-gwestiynau:
- Beth gallwn ddysgu oddi wrth gyrchfannau eraill?
 - Sut gallwn fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau?
 - Sut gallwn fynd yr ail filltir er mwyn denu ymwelwyr i ddychwelyd, blwyddyn ar ôl blwyddyn?
 - A sut gallwn gydbwyso hyn oll mewn ffordd gynaliadwy, ecogyfeillgar?
- 5.18 Fel a ddangoswyd yng Nghwestiwn 2, roedd consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd darparu cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd uchel i'r ymwelwyr. O ran mynd i'r afael ag anghenion yr holl ymwelwyr, roedd ansawdd yn thema allweddol a godai ym mwyafrif yr ymatebion. Roedd agweddau posibl eraill ar y cynnig i ymwelwyr, gan gynnwys dewis a gwerth, yn llawer llai cyffredin yn yr ymatebion.

5.19 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dehongli'r cwestiwn hwn i olygu sut gall profiad ymwelwyr gael ei wella. O ran mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau a mynd yr ail filltir, tueddai'r ymatebwyr i ganolbwyntio ar fylchau yn y ddarpariaeth a oedd, yn eu barn hwy, yn tanseilio'r profiad cyffredinol i ymwelwyr:

Mae arnom angen rhagor o gyrchfannau o ansawdd uchel — boed yn atyniadau ymwelwyr, gwestai neu fwytai — a mwy o bwyslais ar fusnes drwy gydol y flwyddyn i helpu'r sector i gynnal lefelau o ansawdd uchel gyda lefelau uwch o staffio parhaol, amser llawn.

Rhan o'r Diwydiant Twristiaeth, Ymateb 257: C3

5.20 Thema gyffredin ar draws yr ymatebion oedd pwysigrwydd gwella ansawdd y cynnig o ran bwyd, adloniant a llety. Yn yr achos hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru gynghori a chynorthwyo busnesau i sicrhau lefel uwch o ansawdd ledled y wlad.

Mae ansawdd y cynnig, yn arbennig mewn perthynas â llety a bwyd, yn dal i fod yn go annibynadwy. Byddai llawer o fusnesau llai, sy'n aml yn hŷn, yn elwa o gael cyngor a chymorth i'w galluogi i wneud newidiadau syml i wella'r cynnyrch y maent yn eu cynnig.

Rhan o'r Diwydiant Twristiaeth, Ymateb 39: C3

5.21 Peth cyffredin hefyd oedd i'r ymatebwyr bwysleisio'r angen am fwy o fuddsoddiad mewn cyfleusterau cyhoeddus, cysylltiadau cludiant a hygyrchedd, a chynnal a chadw'r amgylchedd. Yn yr achosion hyn, awgrymai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig cael yr elfennau sylfaenol yn iawn drwy sicrhau bod gan gyrchfannau'r seilwaith yn ei le i annog ymwelwyr i aros a dychwelyd:

Rhaid cael y pethau sylfaenol yn iawn! Agorwch doiledau a chyfleusterau cyhoeddus sy'n lân a hygyrch – llefydd parcio i gerbydau preifat gydag arwyddion clir, gan gynnwys ar gyfer ceir, carafanau towio a chartrefi modur. Yn ddelfrydol byddai'r parcio yn rhad ac am ddim, fel y mae twristiaid wedi arfer ag ef mewn llawer o wledydd ar y cyfandir. Cofiwch, mae rhwystrau uchder yn ei gwneud yn amhosib i lawer o yrwyr cartrefi modur sydd eisiau parcio i archwilio a gwario arian mewn cymunedau lleol ledled Cymru.

Llety, Ymateb 155: C3

Cwestiwn 4: Ble ddylem ganolbwyntio ein hymdrechion?

5.22 Wrth helpu i flaenoriaethu gweithredoedd allweddol, roedd Cwestiwn 4 eisiau i'r ymatebwyr ystyried pa faterion a heriau oedd bwysicaf iddynt eu hunain. Roedd hefyd nifer o is-gwestiynau:

- Ble ddylem gyfeirio ein hegri?
- Am beth mae Cymru eisiau bod yn enwog?
- Beth ddylai ein blaenoriaethau buddsoddi fod?

5.23 Tueddai'r atebion i Gwestiwn 4 adlewyrchu'r ymatebion i gwestiynau blaenorol o ran y materion a godwyd gan yr ymatebwyr. Pwysleisiodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr bwysigrwydd gwella ansawdd y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir i'r ymwelwyr, gan gynnwys gwasanaeth cwsmeriaid a'r ddarpariaeth bwyd a diod. Yn hynny o beth, pwysleisiai'r ymatebwyr yn aml y dylid canolbwyntio ymdrechion ar hyrwyddo twristiaeth Cymru, gan bwysleisio cryfderau a sicrhau y gall y sector barhau i ddod yn fwy cynaliadwy a chydnerth.

Dylid canolbwyntio egni ar egluro a chryfhau'r cynigion i Gymru yn genedlaethol a rhanbarthol. Yn y blynyddoedd diwethaf, llwyddwyd i sefydlu gogledd Cymru yn gyrchfan dwristiaeth antur. Dylid canolbwyntio blaenoriaethau buddsoddi'n awr ar ganolbarth Cymru, lle mae cyfleoedd i ddatblygu iechyd a lles a thwristiaeth awyr dywyll yng Nghwm Elan a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. I gyflawni hyn mae angen cynnyrch eiconig, nodweddiadol a safon fyd-eang.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 91: C4

5.24 Pan ofynnwyd am beth yn benodol y credent y dylai Cymru fod yn enwog, awgrymodd yr ymatebwyr y ffactorau canlynol, gan gychwyn gyda'r mwyaf cyffredin:

- Diwylliant a threftadaeth Cymru
- Amgylchedd naturiol Cymru
- Ansawdd cyffredinol yr hyn a gynigir gan dwristiaeth Cymru
- Bwyd a diod Cymru
- Gweithgareddau awyr agored
- Yr iaith Gymraeg

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos yn glir y cynnig eang ac amrywiol sydd ar gael i'r sawl sy'n ymweld â Chymru. Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys optimistaeth ac uchelgais sylweddol:

Dalier ati i weithio ar Frand Cymru. Mae'n wych ond nid yw eto wedi cyrraedd ei lawn botensial.

Rhan o'r Economi Ymwelwyr, Ymateb 245: C4

Bwyd a lletygarwch o safon fyd-eang gyda chroeso cynnes yn ein tirweddau a morweddau eiconig, hynod sy'n adnabyddus ledled y byd – profiadau natur a llesiant eithriadol. Wrth fod yn ddilys ac ystyried yn ofalus, gwnawn yn dda i beidio â dilyn naws farchnata hynod fasnachol y mae gwledydd eraill yn ei defnyddio. Dylem fod yn wahanol a llawer mwy meddal.

Ymateb 275: C4

Mae Cymru'n drawiadol a hardd. Byddai'n dda pe câi Cymru ei hadnabod fel y lle glanaf i fynd iddo. Mae'n aml yn rhatach a haws annog ymwelwyr i ddychwelyd na chael pobl newydd i ymweld. Ond os yw lleoliad yn fudr ac anniben gyda sbwriel a pethau wedi torri, bydd hynny'n annog pobl i beidio â dychwelyd.

Llety, Ymateb 119: C4

- 5.25 Mewn perthynas â Chwestiwn 4, awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylai Croeso Cymru sicrhau y caiff twristiaeth Cymru ei hyrwyddo a'i marchnata yn fwy cynhwysfawr, e.e. drwy strategaethau rhanbarthol, mwy o anogaeth i deithio'n gynaliadwy ac ymgynghori mwy â chyflenwyr lleol er mwyn sicrhau y cânt eu cynorthwyo a'u hyrwyddo'n ddigonol:

Y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yw un o'r llwyddiannau. Bu'r sector yn llwyddiannus iawn, gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru a mentrau fel Cywain a dosbarthwyr fel Castell Howell a Blas ar Fwyd yn helpu i sicrhau y caiff cynhyrchwyr bach eu cynrychioli'n dda mewn siopau a bwytai yng Nghymru; mae'n sicr yn un o'r llwyddiannau, ac wedi'i helpu gan y twf mewn twristiaeth a'r ffaith bod pobl eisiau gwybod tarddiad cynnyrch – llwyddiant cynhyrchwyr rhanbarthol, graddfa fach, sy'n elwa o dwristiaeth.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 18: C4

5.26 Wrth ymateb i beth ddylai blaenoriaethau buddsoddi Croeso Cymru fod, gan ddilyn ymlaen o'r angen a nodwyd am gynnig o ansawdd uchel, a phwysigrwydd hynny, yr awgrym mwyaf cyffredin oedd cynyddu buddsoddiad mewn seilwaith. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cysylltiadau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio fel llwybrau beiciau, yn ogystal â buddsoddi yn yr atyniadau ymwelwyr eu hunain. Byddai cynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith cyhoeddus ac atyniadau ymwelwyr, awgrymai'r ymatebwyr, yn sicrhau llewyrch a chydnerthedd y sector twristiaeth yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau y gall cymunedau oddi mewn i Gymru fod yn gydlynus.

Sicrhau, wrth gynllunio cymunedau'r dyfodol yng Nghymru, bod twristiaeth a'n capasiti a'n gallu i dderbyn ein hymwelwyr yn wirioneddol integredig. Mae dal angen i'r defnyddiwr newydd allu cyrraedd Cymru a theithio o amgylch Cymru. Mae seilwaith yn bwysig. Dylem fod yn meddwl a buddsoddi'n awr mewn seilwaith sy'n sicrhau bod Cymru yn barod am y dyfodol ac sy'n dangos ein bod ar flaen y gad o ran newidiadau, fel rhwydwaith o orsafoedd ailwefru cyflym, systemau trenau ysgafn, ynghyd â materion seilwaith mwy traddodiadol fel gwelliannau i reilffyrdd a cherbydau.

Unigolyn, Ymateb 122: C4

Cwestiwn 5: Pam ei fod yn bwysig?

5.27 Ceisiai Cwestiwn 5 gasglu barn am amryw effeithiau'r economi ymwelwyr ar gymunedau Cymru. Roedd hefyd nifer o is-gwestiynau:

- Beth yw buddion holistaidd twristiaeth i Gymru?
- Sut gallwn greu cyswllt cadarnhaol rhwng twristiaeth a'n gwerthoedd ehangach a'n ffordd o fyw?
- Sut gall gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?
- Sut gall helpu i wneud ein cymunedau'n iachach, hapusach a mwy llewyrchus?

5.28 Pan ofynnwyd ynglŷn â buddion holistaidd twristiaeth yng Nghymru, roedd yr ymatebwyr yn aml yn tynnu sylw at y llewyrch y mae twristiaeth yn ei gyflwyno i Gymru ar ffurf mewnfuddsoddi a chreu swyddi. Meddai un ymatebydd:

I lawer o fusnesau bach, gwledig, mae twristiaeth yn rhan hanfodol o'u hyfywedd economaidd ac mewn ardaloedd gwledig, mae cyrhaeddiad holistaidd twristiaeth yn helpu i gynnal busnesau y tu allan i'r sector e.e. siopau pentref, tafarndai. Gall twristiaeth fod yn holistaidd drwy gefnogi a galluogi adnoddau, mynediad ac atyniadau i'w defnyddio gan ymwelwyr a thrigolion lleol fel ei gilydd, boed yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol.

Awdurdod Lleol, Ymateb 211: C5

5.29 Yn ychwanegol, mewn perthynas â Chwestiwn 5, nodwyd y gallai twristiaeth sefydlu ac atgyfnerthu cysylltiadau rhwng cymunedau a chymunedau o ddiwylliannau gwahanol e.e. drwy ymwelwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd:

Mae twristiaeth yn helpu i ehangu ymwybyddiaeth a, gobeithio, goddefgarwch o'r rhai a allai fod yn wahanol eu diwylliant, credoau a blaenoriaethau.

Unigolyn o'r Deyrnas Unedig, Ymateb 230: C5

Serch hynny, roedd achosion pan ddwedodd yr ymatebwyr, er y gall twristiaeth fod yn gydlynus, bod angen mwy o ymwybyddiaeth ac anogaeth er mwyn gwneud twristiaeth yn gynhwysol. Meddai un ymatebydd:

Y broblem gyda thwristiaeth, nid yn unig yng Nghymru ond ym mhobman, yw ei bod yn aml yn digwydd mewn swigen. Caiff atyniadau twristiaeth eu hosgoi gan bobl leol yn ystod tymor twristiaeth. Efallai bod twristiaid a phobl leol yn defnyddio'r un gofodau, ond maent yn eu gweld yn wahanol iawn.

Ymateb 155: C5

5.30 Er mwyn gwella'r cynnig holistaidd y gall twristiaeth ei ddarparu, awgrymodd llawer o ymatebwyr fod angen iddi fod yn fwy hygyrch drwy ymgysylltu mwy â chymunedau er mwyn ehangu ac integreiddio ei chyrhaeddiad a'i heffaith gadarnhaol.

Ni ddylid ystyried twristiaeth ar ei phen ei hun, ond fel rhan greiddiol o'r economi sylfaenol fel a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai twristiaeth, felly, hefyd gael ei hystyried yn greiddiol i bawb, nid i'r breintiedig yn unig, hynny yw twristiaeth hygyrch a thwristiaeth mewn ardaloedd o amddifadedd i gynorthwyo'r economi lleol ac fel rhan greiddiol o ddatblygiad cymunedol.

Rhan o'r Diwydiant Twristiaeth, Ymateb 63: C5

Dylai unrhyw beth a wneir i'r twristiaid gael ei gynllunio i fod o fudd i'r gymuned leol, gyda chyfleusterau yn nwylo'r naill a'r llall ac yn cael eu rheoli a'u defnyddio ar y cyd rhwng y rhai sy'n hyrwyddo twristiaeth a'r defnyddwyr dyddiol lleol.

Rhan o'r Diwydiant Twristiaeth, Ymateb 189: C5

Cwestiwn 6: Sut gallwn gydweithio?

5.31 Wrth archwilio sut dylai Croeso Cymru ymgysylltu â chydweithio â'r amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n rhan o'r sector, defnyddiwyd nifer o is-gwestiynau:

- Yn wahanol i sefydliadau eraill y Deyrnas Unedig, mae Croeso Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac nid yw'n ddarparwr teithio. A ydym yn gweithio mor effeithiol ag y gallem oddi mewn i Lywodraeth Cymru?
- A ydym yn ymgysylltu â'r sector yn y ffordd orau bosibl?
- A ydym yn glir ynglŷn â'r hyn y gallwn wneud, beth gall eraill wneud yn well, a sut gallwn gydweithio orau i helpu twristiaeth yng Nghymru i ffynnu?

5.32 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr feddwl pa mor effeithiol y bu Croeso Cymru yn ei rôl, awgrymwyd y gwnaed cynnydd da drwy gydol y cyfnod strategol blaenorol. Yn benodol, pwysleisiai'r ymatebwyr y bu dull cydgysylltiedig rhwng Croeso Cymru a rhanddeiliaid ar draws y sector yn ogystal ag adrannau eraill y llywodraeth. Mynegai eraill, wedyn, y gellid cryfhau'r arfer o weithio mewn partneriaeth. Meddai un ymatebydd:

Gan edrych i mewn o'r tu allan, gwnaed cynnydd dros y cyfnod strategol diwethaf o ran gwell cyswllt rhwng rhaglenni gwaith a blaenoriaethau ar draws portffolios ac adrannau, ond mae mwy y gellir ei wneud o hyd i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd gorau o ran adnoddau a sicrhau bod meysydd polisi allweddol i'w gweithredu yn cydweddu, fel Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac agenda'r Amgylchedd ar gyfer Twf.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 3: C6

5.33 O ran cryfhau gwaith partneriaeth, teimlai rhai y gallai'r strategaeth i'r dyfodol gael ei gwella drwy flaenoriaethau a gweithredoedd wedi'u targedu mwy:

Teimlaf y gwnaed gwelliannau gwych wrth gydweithio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae her yn y ffaith bod negeseuon a blaenoriaethau yn dal i fod yn rhy wasgaredig, ac mae angen mwy o ffocws wrth ymgysylltu â gwahanol rannau o'r sector; ar hyn o bryd, gall y brwsh fod yn go llydan a heb ei dargedu i greu effaith.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 46: C6

- 5.34 Pan ofynnwyd a all Croeso Cymru gydweithio â sefydliadau aelodau a rhanddeiliaid, awgrymodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr bod angen ymgysylltu mwy ag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau bach a sefydliadau llai. Yn hyn o beth, nododd rhai ymatebwyr bod angen mwy o gyswllt partneriaeth strategol rhwng sefydliadau ac adnoddau er mwyn targedu meysydd allweddol o bwysigrwydd, e.e. sefydlu sector twristiaeth mwy cynaliadwy.

Mae'r rôl mae partneriaid trydydd sector fel y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau natur yn ei chwarae, yn arbennig wrth dyfu cynnig twristiaeth werdd a natur, yn sylweddol. Mae angen i'r cyllid fod ar gael yn glir i bob darparwr twristiaeth, gan gynnwys y trydydd sector. Gallai'r cymorth hwn ddod ar ffurf cymorth i ddatblygu prosiectau, drwy gyllid refeniw, yn ogystal â chyfalaf uniongyrchol ar gyfer seilwaith. Mae gennym uchelgais fawr, ond mae angen inni sicrhau y gallwn ysgogi buddsoddiad i roi mentrau cyfalaf ar ben ffordd. Oherwydd ein hamcanion elusennol, mae angen inni ganolbwyntio ein hadnoddau gwerthfawr ar gadwraeth natur.

Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 348: C6

Cwestiwn 7: Sut ydym yn ateb yr her ddigidol?

- 5.35 Wrth archwilio rôl a photensial technoleg ddigidol mewn perthynas â chefnogi'r economi ymwelwyr, defnyddiwyd nifer o is-gwestiynau:

- Sut ydym yn cadw ar flaen y gad o ran technoleg newydd?
- A yw ein seilwaith – band eang, Wi-Fi, 5G — yn barod at y dyfodol?
- Pa dechnoleg fydd ymwelwyr y dyfodol yn disgwyl ei chymryd yn ganiataol?
- Sut byddwn yn casglu a defnyddio data? Sut ydym yn cydbwyso hyn â'r angen am breifatrwydd?

5.36 O ran y seilwaith digidol yng Nghymru, i nifer sylweddol o ymatebwyr roedd hwn yn fater a allai fod yn rhwystr i dwf. Teimlai rhai ymatebwyr fod cwmpas symudol a rhyngwyd gwael ac anghyson parhaus ledled Cymru yn llesteirio ymdrechion i ddenu ymwelwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, deallwyd bod hyn yn bryder i ardaloedd gwledig yn benodol. Meddai un ymatebydd:

Mewn ffordd, mae mynediad rhyngwyd gwael yn andwyo Cymru wledig. Os ydym eisiau denu ymwelwyr o Loegr a thramor i gefn gwlad, mae angen cyflymder da. Mae gennym ormod o ‘fannau digyswllt’.

Ymateb 349: C7

5.37 Lle y nodwyd cwmpas cyfyngedig, awgrymodd rhai ymatebwyr fod hyn yn elfen allweddol y dylai Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arni, gan sicrhau bod y seilwaith digidol yn addas i'r diben fel na fydd Cymru ar ei hôl hi yn dechnolegol.

Mae'n rhaid ichi gadw i symud a mabwysiadu technoleg newydd lle y mae'n berthnasol. Bydd seilwaith bob amser ychydig y tu ôl yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Dylem wario cymaint ag y gallwn fforddio (fel gwlad) ar ein seilwaith.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 18: C7

5.38 Wrth ymateb i gwestiwn 7, peth cyffredin hefyd oedd i'r ymatebwyr bwysleisio bod ymwelwyr, yn arbennig rhai o dramor, yn disgwyl Wi-Fi hawdd ei ddefnyddio, 4G a/neu 5G, a gwefannau hygyrch, gan ddefnyddio enghreifftiau cyffelyb fel Airbnb. Yn yr achosion hyn, pwysleisiai'r ymatebwyr fod angen bodloni'r disgwyliadau a gallai hyn, yn ei dro, wneud cymunedau yn fwy cydlynus a sicrhau bod mwy o gydraddoldeb ledled Cymru o ganlyniad i fwy o hygyrchedd technolegol ar draws y wlad.

5.39 Serch hynny, yn y lleiafrif o achosion, awgrymai'r ymatebwyr, er bod disgwyl hygyrchedd digidol, dylid ystyried hefyd y gall diffyg cwmpas technolegol gael ei ystyried yn beth buddiol, gan gryfhau'r syniad bod Cymru yn rhywle i ymweld ag ef er mwyn dianc rhag beichiau technolegol.

Gallai cynnydd technolegol cyflym fynd i'r gwellt yn sgil pryderon iechyd a niwed i'r amgylchedd. Dylem fod yn cofleidio *detocs* digidol, araf, heb ddibyniaeth ar dechnoleg, yn hytrach na cheisio cystadlu.

Llety, Ymateb 208: C7

Er i'r farn hon gael ei mynegi mewn ychydig o achosion, pwysleisiai'r ymatebwyr hefyd, er bod yr angen i fuddsoddi mwy yn seilwaith technolegol Cymru yn bwysig, bod angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n ecogyfeillgar ac yn gyfrifol yn fyd-eang.

Rhaid i bob elfen o dechnoleg, seilwaith ac ati fod yn fwy ecogyfeillgar yn hytrach nag ar flaen y gad. Mae'n bwysicach bod ein cwsmeriaid yn teimlo'n iawn i ddefnyddio'r adnoddau na bod gennym y dechnoleg fwyaf newydd. Mae'n bwysig hefyd bod yr holl gyfryngau cymdeithasol, gwefannau a phrofiadau yn fodern ac yn dangos ein bod yn derbyn sut mae technoleg a'r byd yn newid, gan mai dyma beth mae'r cenedlaethau newydd yn dibynnu arno i achub ein planed.

Unigolyn, Ymateb 196: C7

Cwestiwn 8: Sut ydym yn gwella ansawdd?

5.40 Ceisiai'r cwestiwn hwn ysgogi trafodaeth a chreu syniadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r cynnig i ymwelwyr. Roedd nifer o is-gwestiynau:

- Beth fydd 'ansawdd' yn ei olygu i ymwelwyr y dyfodol?
- Sut ydym yn hyfforddi pobl â'r sgiliau cywir i gyflawni'r ansawdd hwnnw?
- Sut ydym yn gwerthuso ansawdd?
- Sut gallwn ddysgu oddi wrth gyrchfannau cyffelyb?
- A oes arnom angen system raddio? Ac os felly – sut ydym yn sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y dyfodol?

5.41 Gan ganolbwyntio ar sut gall ansawdd twristiaeth Cymru gael ei gwella, yr agwedd a bwysleisiwyd amlaf gan yr ymatebwyr oedd bod angen gwella ansawdd trosfwaol cynnyrch a gwasanaethau a'u bod yn gyson ar draws y sector a'r wlad. Er bod gwella ansawdd gwasanaethau a chynnyrch yn ymddangos yn ffordd glir ac amlwg i wella ansawdd twristiaeth Cymru, oddi mewn i hynny awgrymai'r ymatebwyr bod yr ansawdd ei hun yn gysylltiedig â mwy o ymwybyddiaeth o brofiad yr ymwelwyr a chysylltiadau ystyrlon â strategaethau Llywodraeth Cymru. Mewn un achos, meddai'r ymatebydd:

Mae'n rhaid inni roi'r gorau i fesur llwyddiant drwy nifer yr ymwelwyr, er bod hyn yn darparu cyfiawnhad gweinidogol. Defnyddiwch Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu baromedr newydd ar gyfer ansawdd a llwyddiant — parhad busnes, lefelau buddsoddi, lefelau gwariant, ac effaith amgylcheddol yr

ymweliad. Sicrhewch fesurau ystyrllon, go iawn, o werth ymwelydd sy'n gweithio ar draws y sector.

Gweithredwr Teithiau, Ymateb 99: C8

5.42 Yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o ansawdd twristiaeth Cymru, beth mae hyn yn ei olygu a sut y gellid mynd i'r afael ag ef mewn ffordd ystyrllon, nododd yr ymatebwyr hefyd y byddai rhoi mwy o hyfforddiant i staff yn y sector yn darparu gwell ansawdd, am y gallai safonau uchel gael eu sicrhau a'u cadw'n gyson. Mewn rhai achosion, deallir bod hyfforddiant yn canolbwyntio ar farchnata, wrth i'r ymatebwyr awgrymu y byddai mwy o hyfforddiant mewn perthynas â marchnata a hyrwyddo yn golygu y byddai staff mewn sefyllfa well i werthu eu hatyniad i'r cyhoedd ac ymwelwyr.

5.43 Yn yr achos hwn, pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bod angen hyfforddi 'llysgenhadon' ar gyfer ardaloedd ac atyniadau lleol, am y gallai hyn wella profiad ymwelwyr ac annog adolygiadau da. Waeth beth oedd y math o hyfforddiant a nodwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd bod hyfforddiant ynddo'i hun yn ffordd gadarnhaol ac effeithiol i sicrhau ansawdd a bod o fudd i bobl leol hefyd. Gan gydfynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â Chymru lewyrchus a chydnerth, gall mwy o hyfforddiant yn y sector twristiaeth gael ei ystyried yn ddull effeithiol i wella sgiliau pobl leol a darparu mwy o gyfleoedd yng Nghymru.

Mae ansawdd yn dod o fuddsoddi a hyfforddi seilwaith a phobl. Yn y pen draw, ansawdd y staff (yn arbennig staff ifanc, addysgedig o Gymru) yw'r allwedd i'r dyfodol.

Busnes Bwyd a Diod, Ymateb 74: C8

5.44 Gan ymateb i'r is-gwestiwn a archwiliai systemau graddio, ychydig o ymatebwyr yn unig a gynigiodd farn, ac mae gan y rhai a wnaeth amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol. Credai'r rhan fwyaf fod systemau graddio wedi'u disodli gan ddulliau adolygu ar-lein.

Dylai'r system raddio gael ei chwestiynu go iawn bellach gan fod cymaint o wefannau argymell ar-lein, ynghyd â chynlluniau cenedlaethol.

Ymateb 157: C8

Mewn gwirionedd, mwy na thebyg bod systemau graddio ar fin darford — mae twf asesiadau ar-lein wedi goddiweddyd y pedair seren draddodiadol neu beth bynnag. Ond mae gwerth o hyd i ddarparwr llety allu nodi eu gradd ar wefannau.

Llety, Ymateb 217: C8

Mae graddio llety yn offeryn rheoli ansawdd defnyddiol i weithredwyr ac yn gyffredinol mae defnyddwyr yn ei ddeall. Serch hynny, gyda thwf platfformau digidol fel TripAdvisor ac Airbnb, mae mwy o hygredd i adolygiadau cwsmeriaid bellach.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 91: C8

- 5.45 Cynigiodd ychydig ymatebwyr y farn bod systemau graddio yn werthfawr, a bod y system bresennol yn gefnogol.

Oes, mae arnom angen system raddio, ac un sy'n cael ei chynnal gan bobl niwtral lle mae ansawdd yw'r sbardun ac nid rhifau busnes, ffioedd.

Llety, Ymateb 205: C8

- 5.46 Llond dwrn o ymatebwyr yn unig a gododd bwyntiau ynglŷn â systemau graddio. Gallai hyn awgrymu nad oes gan yr ymatebwyr farn gref ar y pwnc. Ymhellach, gallai fod yn ganlyniad i'r ffordd y fframiwyd y cwestiwn. Mae'r is-gwestiwn ynglŷn â graddio yn ymddangos olaf mewn rhestr o chwech o gwestiynau cyffredinol.

Cwestiwn 9: A yw Cymru yn hawdd ei chyrraedd ac yn hawdd teithio o'i hamgylch?

- 5.47 Roedd Croeso Cymru yn awyddus i archwilio barn ymatebwyr ar seilwaith cludiant. Roedd hefyd nifer o is-gwestiynau:

- Sut ydym yn annog pobl i wneud y daith honno?
- Pa newidiadau allweddol i'n seilwaith cludiant a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?
- Pa ddulliau cludiant fydd yn bwysig i ymwelwyr y dyfodol?
- A ydym yn gwneud digon ar hygyrchedd i bawb?

5.48 Roedd hwn yn faes allweddol o ddiddordeb i lawer o ymatebwyr. Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr fod Cymru yn hawdd i'w chyrraedd ac yn hawdd teithio o'i hamgylch:

Â char, ydi! Â chludiant cyhoeddus, na – nid yw'n gydlynus.

Gweithredwr Teithiau, Ymateb 26: C9

Lle y gwnaeth yr ymatebwyr dynnu sylw at ba mor amrywiol yw cludiant, sylw nodweddiadol oedd bod cludiant cyhoeddus yn fwy amrywiol, a bod teithio â char yn cael ei ystyried y ffordd hawsaf a mwyaf dibynadwy o deithio.

5.49 Pan ofynnwyd sut gellid annog pobl i deithio i Gymru, meddai bron i hanner yr ymatebwyr fod angen gwella ansawdd a hygyrchedd cludiant cyhoeddus, ac awgrymodd grŵp lled-debyg bod angen buddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd. Ymhellach, mae'n bwysig nodi, er bod y cwestiwn yn pwysleisio pwysigrwydd teithio i Gymru, mai cyffredin oedd i'r ymatebwyr ystyried bod hyn yn golygu teithio i Gymru ac ar draws Cymru, gan awgrymu bod ymatebwyr o'r farn bod teithio oddi mewn i Gymru cyn bwysiced â theithio i'r wlad. Mewn un achos, meddai'r ymatebydd: 'Mae'n go hawdd cyrraedd Cymru, ond nid mor hawdd yw teithio o'i hamgylch.'

5.50 Ar draws y 10 Cwestiwn, cyffredin oedd i'r ymatebwyr nodi bod seilwaith gwell ac o ansawdd uchel yn elfen allweddol o wella'r sector twristiaeth yng Nghymru. Pan ofynnwyd pa newidiadau i'r seilwaith cludiant cyhoeddus fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, awgrymodd yr ymatebwyr:

- Gwell cludiant cyhoeddus i ardaloedd gwledig ac oddi mewn i'r ardaloedd hynny
- Cludiant cyhoeddus mwy rheolaidd ar draws Cymru
- Mwy o hyrwyddo opsiynau cludiant.

5.51 Fel a nodwyd yn flaenorol, mewn perthynas â thechnoleg, gallai gwella seilwaith Cymru fel hyn wella pa mor gydlynus yw'r cymunedau a sicrhau bod mwy o gydraddoldeb ledled Cymru o ganlyniad i gludiant mwy hygyrch ar draws Cymru.

5.52 Gan fwrw golwg ymlaen, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ddulliau cludiant fyddai bwysicaf yn y dyfodol. Mae'r dulliau cludiant a nodwyd yn yr ymatebion yn amlygu amrywiaeth o opsiynau teithio, a'r opsiwn mwyaf cyffredin oedd trenau, ac wedi hynny, ceir, bysiau ac, i rai, beiciau. Er i ymatebwyr mewn rhai achosion nodi eu hymwybyddiaeth o rwystrau i gludiant hygyrch yng Nghymru, e.e. o ganlyniad i

dirwedd fynyddig, awgrymwyd y dylai heriau fel hyn gael eu hymgorffori ym mhrofiad yr ymwelwyr, gan gydweddu pwysigrwydd amgylchedd naturiol Cymru ag opsiynau cludiant.

Allwch chi ddim cael popeth, na? Mae ein daearyddiaeth yn ein hatal rhag gael priffyrdd mewn 'llinell syth', ond gallai ein system reilffordd fod o well ansawdd ac mae angen i borthladdoedd allu ymdopi â'r twf yn y diwydiant llongau pleser. Mae angen i ni wneud i gludiant yng Nghymru fod yn nodwedd o'r profiadau sydd ar gael yma – ei wneud yn brofiad cadarnhaol yn hytrach nag yn un negyddol. A allem ni gael bws arfordirol?

Corff Cyhoeddus, Ymateb 275: C9

Cwestiwn 10: Sut gallwn wneud hyn oll yn gynaliadwy?

5.53 Roedd hefyd nifer o is-gwestiynau:

- Sut ydym ni'n rheoli'r paradocs o nifer gynyddol o ymwelwyr ynghyd â diogelu'r amgylchedd?
- Sut ydym yn rheoli effaith ymwelwyr a thraffig?
- Sut gall twristiaeth helpu i gynorthwyo economi carbon isel?

5.54 Roedd y cwestiwn olaf a ofynnwyd i'r ymatebwyr fel rhan o arolwg 10 cwestiwn Croeso Cymru yn canolbwyntio ar sut gallai'r newidiadau a nodwyd yn flaenorol yn y sector twristiaeth yng Nghymru gael eu gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Cododd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn amrywiaeth eang o awgrymiadau ynglŷn â diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys ymgyrchoedd addysgiadol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru a mwy o hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ledled Cymru, ochr yn ochr â mwy o ymgyrchoedd ynglŷn â chodi sbwriel ac ailgylchu a datblygu rhagor o opsiynau cludiant trydan a chynaliadwy.

Hyrwyddo teithio ecogyfeillgar/cynaliadwy drwy weithio gyda chymunedau lleol a darparu cymhellion i gymunedau lleol ddarparu dulliau teithio cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a darparu cyllid ar gyfer ymchwil i systemau cludiant trydan.

Ymateb 59: C10

5.55 Cafodd yr awgrym i ystyried dewisiadau amgen sy'n fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar hefyd ei nodi fel ffordd y gall Cymru gefnogi economi carbon isel, yn arbennig dewisiadau amgen oddi mewn i gyfleusterau ac ar gyfer cludiant.

I gefnogi economi carbon isel, mae atyniadau Dŵr Cymru yn dechrau defnyddio ynni adnewyddadwy i yrru canolfannau ymwelwyr, gosod pwyntiau gwefru trydan mewn meysydd parcio a defnyddio peiriannau trydan yn lle peiriannau disel ar gychod.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 91: C10

Ymhellach, awgrymodd yr ymatebwyr y gallai effaith ymwelwyr gael ei lliniaru drwy gynyddu ac ehangu ardaloedd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod rhai ardaloedd, fel lleoedd amgylcheddol o ddiddordeb, ar hyn o bryd mewn perygl o gael eu 'caru i farwolaeth' ac y gellid lliniaru hyn drwy hyrwyddo mwy ar ardaloedd amgen a thrwy ragor o adnoddau i sicrhau cadwraeth amgylchedd a bywyd gwyllt. Meddai un ymatebydd:

Mae potensial sylweddol i dyfu drwy fuddsoddi yn amgylchedd naturiol Cymru, ac elwa ohono, er mwyn ehangu ymwelwyr a gwariant twristiaeth. Credwn fod Cymru'n cynnig profiad gwych i ymwelwyr gyda rhywogaethau carismatig a blaenllaw ac mae modd ei hadnabod fel lle sy'n cynnig profiadau cofiadwy o fywyd gwyllt [...]. Serch hynny, mae ardaloedd sy'n boblogaidd gan ymwelwyr, fel parciau cenedlaethol a gwarchodfeydd natur, mewn perygl o gael eu 'caru i farwolaeth' gyda'r cynnyrch yn dirywio a niferoedd yr ymwelwyr wedyn yn gostwng. Caiff y broblem hon ei gwaethygu gan y ffaith mai ychydig o'r arian a ddaw i mewn drwy dwristiaeth sy'n mynd yn ôl i mewn i gadwraeth yr amgylchedd morol neu gefn gwlad.


Unigolyn, Ymateb 13: C10

- 5.56 Trown yn awr at amlinellu a chrynhoi yr ymatebion yn erbyn pob un o'r nodau Llesiant.

6. Yr Ymatebion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 6.1 Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu i'r economi ymwelwyr, bydd Croeso Cymru yn ystyried yr egwyddorion a'r nodau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy mewn penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob gweithred a wneir yn diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrf cyhoeddus, gan gynnwys Croeso Cymru, i ystyried a gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i saith nod Llesiant y Ddeddf:

Ffigur 6.1: Nodau Llesiant



- 6.2 Wrth arwain ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, roedd Croeso Cymru'n awyddus i ystyried barn a blaenoriaethau'r ymatebwyr mewn perthynas â'r nodau Llesiant. Aeth y dadansoddiad ati, felly, i fapio a deall y perthnasoedd rhwng barn a theimladau'r ymatebwyr ac amcanion pob un o'r nodau Llesiant.

Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

- 6.3 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod yn gyffredinol bwysigrwydd y rôl y mae twristiaeth yn ei chwarae ym mywyd economaidd cymunedau ledled Cymru. Teimlai rhai ymatebwyr fod twristiaeth ei hun yn cefnogi hyfywedd economaidd cymunedau penodol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Ar y llaw arall, mynegodd eraill y gallai, ac y dylai'r economi ymwelwyr chwarae rôl fwy wrth gefnogi pobl a busnesau ledled Cymru:

Bydd economi ymwelwyr cryf yn cynorthwyo'r economi ehangach, yn creu rhagor o swyddi, [ac] yn cynnig mwy o sicrwydd i deuluoedd sy'n gweithio.

Unigolyn, Ymateb 213: C5

- 6.4 Roedd datblygu'r economi ymwelwyr mewn ffyrdd a oedd yn economaidd a chymdeithasol gynaliadwy yn bwysig i rai ymatebwyr. Teimlai ychydig ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod buddion economaidd twristiaeth yn cael eu dosbarthu'n fwy cyfartal, oddi mewn i gymunedau yng Nghymru ac ar draws cymunedau:

Dylai llwyddiant gael ei fesur ar sail y gwerth y mae twristiaeth yn ei roi i Gymru, yn hytrach nag edrych ar niferoedd ymwelwyr yn unig. Dylai'r mesurau ganolbwyntio ar broffidioldeb, cyflogaeth leol a chyflog teg – sy'n gysylltiedig â gwerth cymdeithasol twristiaeth.

Rhan o'r Economi Ymwelwyr, Ymateb 221: C1

- 6.5 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at botensial denu ymwelwyr sy'n debygol o aros am hwy a gwario mwy fel llwybr at dwf cynaliadwy. Cafodd buddion economaidd 'twristiaeth lefel uwch' hefyd eu hawgrymu gan rai ymatebwyr i gynyddu gallu busnesau i ddarparu gwaith teg, sy'n un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.¹
- 6.6 Ochr yn ochr a chyfraniad economaidd twristiaeth, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at rôl bwysig yr economi ymwelwyr wrth gefnogi cyfleoedd cyflogaeth. Ystyriai rhai ymatebwyr fod buddsoddi mewn pobl yn bwysig wrth fynd i'r afael â materion fel sgiliau isel a chyflogau isel, sy'n gyffredin ar draws rhannau o'r sector. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn ystyried bod hyfforddiant yn bwysig wrth ddatblygu a gwella profiad ymwelwyr:

Dylai profiad bwyd a lletygarwch Cymru wneud argraff barhaol ar ymwelwyr, a fydd, yn ei thro, yn eu hannog i ddychwelyd ac yn annog ymwelwyr newydd i ymweld â'r wlad. Dylai pob darparwr gwasanaeth bwyd, gan gynnwys gwestai, bwytai, atyniadau ymwelwyr a chaffis, gael eu hyfforddi i'r lefel uchaf o wasanaeth.

Rhan o Sefydliad sydd â Chysylltiadau â Thwristiaeth, 132: C4

Cymry gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

- 6.7 Roedd pwysigrwydd hybu cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws yr economi ymwelwyr yn thema allweddol a gododd mewn llawer o ymatebion. Roedd consensws cyffredinol ynglŷn â phwysigrwydd cynnal a diogelu'r tirwedd naturiol, er enghraifft, yn arbennig am fod llawer o'r ymatebwyr yn ystyried bod amgylchedd naturiol Cymru yn atyniad allweddol i ymwelwyr:

Mae'r dopograffeg a'r fioamrywiaeth yng Nghymru yn rhyfeddol ac yn sicr yn werth eu dathlu a'u diogelu. Gall Cymru arwain y ffordd ym maes cadwraeth bywyd gwyllt, dad-ddofi, ochr yn ochr ag arferion ffermio cynaliadwy ac ati. Mae bywyd gwyllt yn denu cynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol.

Atyniad Ymwelwyr, Ymateb 40: C2

¹ <http://www.assembly.wales/research%20documents/18-033/18-033-web-english.pdf>

6.8 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng hybu twf mewn twristiaeth a rheoli ei heffeithiau negyddol posibl, yn gymdeithasol ac amgylcheddol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai hybu mwy o dwristiaeth ddomestig yw'r ateb, gan leihau'r pellteroedd mae pobl yn eu teithio er mwyn cyrraedd Cymru. Teimlai eraill, wedyn, mai gwerthfawr yw hybu mwy o wariant gan ymwelwyr heb gynyddu cyfanswm nifer yr ymwelwyr. O'r safbwynt hwn, byddai dull o'r fath yn hybu twf tra'n rheoli ôl-troed twristiaeth:

Canolbwyntio ar ddenu ymwelwyr sy'n gwario mwy a thyfu gwerth twristiaeth, yn hytrach na thyfu'r nifer. Canolbwyntio ar ymestyn y tymor i mewn i'r misoedd bob ochr i'r misoedd prysuraf...

Awdurdod Lleol, Ymateb 326: C10

6.9 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn archwilio effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol twristiaeth gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chlodiant a chysylltedd. Wrth symud tuag at economi carbon isel, roedd dau grŵp gwahanol o ymatebwyr: y sawl a gefnogai mwy o fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus, a'r sawl a deimlai bod trydaneiddio'r rhwydwaith ffyrdd a symud oddi wrth danwydd ffosil yn bwysig:

Mae diogelu'r amgylchedd yn rhywbeth sydd hefyd yn bwysig inni i gyd ac, fel y gwyddom, mae'r newid yn yr hinsawdd yn real ac yn digwydd. Fel yn y cwestiwn blaenorol, mae'r car yn bwysig iawn yng Nghymru, am fod y gwasanaethau cyhoeddus yn dda mewn rhai ardaloedd a heb fod cystal mewn ardaloedd eraill. Mae dibynadwyedd yn broblem... Unwaith eto, byddai edrych ar fuddsoddi mewn technolegau gwyrdd ar draws y diwydiant twristiaeth yn gadarnhaol – biomas, ffotofoltäig, pwyntiau gwefru trydan ac ati.

Unigolyn, Ymateb 302: C10

Cymru iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

6.10 Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod effeithiau cadarnhaol twristiaeth ar iechyd a llesiant. Nododd ychydig o ymatebwyr y cyswllt rhwng bod allan yn yr awyr agored, yn arbennig ymgymryd â gweithgareddau fel cerdded neu feicio, a buddion iechyd cadarnhaol. Bu i ychydig eraill wedyn nodi'r rôl bwysig y mae mewnfuddsoddiad

twristiaeth yn ei chwarae wrth ystyried llesiant, o ran effeithiau cadarnhaol ar bobl mewn perthynas â chyflogaeth, ac o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

- 6.11 Er y câi'r rôl economaidd y mae twristiaeth yn ei chwarae yng nghymunedau Cymru ei chydabod yn gyffredinol, ychydig yn unig o'r ymatebwyr a archwiliodd botensial yr economi ymwelwyr i hybu cyfleoedd a chanlyniadau cyfartal. Nododd rhai y ffaith bod swyddi sgiliau isel a chyflogau isel mor gyffredin yn broblem sy'n wynebu rhannau o'r sector, er enghraifft, gan gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i rai mewn cymdeithas. Roedd awgrymiadau ynglŷn â sut gellid mynd i'r afael â hyn yn cynnwys gwella cyfleoedd, hyfforddiant, cyflogau a llwybrau gyrfa a gaiff eu cynnig i bobl ar draws yr economi ymwelwyr.

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

- 6.12 Cynigiodd yr ymatebwyr nifer o themâu a syniadau ynglŷn â photensial a chyfyngiadau'r economi ymwelwyr o ran cefnogi cymunedau hyfyw sydd â chysylltiadau da. Unwaith eto, teimlai ychydig ymatebwyr bod effaith economaidd twristiaeth ei hun yn golygu bod rhai cymunedau gwledig yn hyfyw, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a galluogi busnesau ehangach nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth i ategu'u hincwm.
- 6.13 Teimlai rhai ymatebwyr fod y mewnfuddsoddiad a ddaw drwy dwristiaeth hefyd yn galluogi a hybu mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith cludiant a digidol, gan ddarparu cysylltedd hanfodol. Serch hynny, roedd consensws cyffredinol ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â chysylltedd, yn arbennig i gymunedau gwledig. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn nodi materion lleol, fel diffyg darpariaeth cludiant cyhoeddus lleol a chysylltedd digidol, a materion cenedlaethol, fel mynediad at feysydd awyr rhyngwladol ac anawsterau wrth deithio rhwng gogledd a de'r wlad.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

- 6.14 Ceir consensws cyffredinol bod twristiaeth yn gyfle pwysig i hybu'r arfer o ddysgu'r iaith Gymraeg ac ymgysylltu â'r Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod unigrywiaeth y profiad Cymreig yn rhan bwysig o'r atyniad i ymwelwyr:

Dylem hybu croeso Cymreig cynnes. Mae twristiaid o ansawdd uchel wrth eu boddau'n ymdrochi yn y diwylliant y maent yn ymweld ag ef; mae hyn yn ychwanegu at y profiad. Dylem hybu ein gwahaniaethau, e.e. iaith unigryw, a bydd hyn yn ychwanegu at yr atyniad.

Trefnu Digwyddiadau, Ymateb 117: C2

Mae'n hanfodol y caiff twristiaid wybodaeth briodol am ein hanes rhyfeddol, a ddylai fod yn rhan bwysig o'u profiad fel ymwelwyr. Dylai pwyslais ar yr hyn sy'n gwneud diwylliant Cymru'n wahanol ac, yn benodol, ei hiaith, gyfoethogi'r profiad i'r ymwelwyr.

Llety, Ymateb 260: C5

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

- 6.15 Bu i ychydig ymatebwyr fyfyrion ar yr esiampl y mae Cymru yn ei chynnig yn y modd y mae'n ystyried materion fel yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Roedd presenoldeb deddfwriaeth fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i hymagwedd holistig at ystyried effaith ein penderfyniadau, ynddo'i hun yn arwyddocaol i un ymatebydd:

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru, a chredaf y gellid manteisio ar hyn. Yn hytrach na chanolbwyntio ar werthu cynnyrch (a wneir gan bob cyrchfan ac y mae pawb wedi diflasu arno), gallem werthu 'neges' bod Cymru'n wlad sy'n gofalu am ei diwydiant, ei phobl a'i dyfodol, a bwrw i mewn go iawn i'r farchnad o 'deithwyr ymwybodol'.

Llety, Ymateb 96: C4

7. Casgliadau

- 7.1 Cyfrannodd amrywiaeth eang o fusnesau, unigolion a sefydliadau eu barn drwy eu hymatebion i'r '10 Cwestiwn'. Pwysig yw nodi bod meysydd o gytundeb ar draws nifer o bynciau, gan gynnwys ar rai o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r sector. Lle y ceir cytundeb cyffredinol, mae hyn yn tueddu i wneud â materion a themâu trosfwaol, gan gynnwys:
- Pwysigrwydd a gwerth twristiaeth a'r economi ymwelwyr i Gymru.
 - Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant a thirwedd Cymru.
 - Yr angen i wella'r cynnig i ymwelwyr.
 - Pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith, hyfforddiant a datblygu.
- 7.2 Lle y mae llai o gytundeb, mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar yr union ateb neu sut i ganolbwyntio'r ymdrechion wrth ddatblygu'r sector. Mae hyn yn cynnwys:
- Canolbwyntio ar dwristiaid rhyngwladol neu ddomestig.
 - Pa farchnadoedd rhyngwladol i'w blaenoriaethu.
 - Yr union flaenoriaethau wrth fuddsoddi mewn seilwaith.
 - Sut y caiff gwelliannau i'r cynnig i ymwelwyr eu cyflawni.
- 7.3 Lle y ceir meysydd o anghytuno posibl, yn aml mae gan yr ymatebwyr safbwyntiau sylfaenol gwahanol. Mae'r ffocws ar hybu twristiaeth ddomestig, er enghraifft, yn aml yn cael ei yrru gan ganfyddiad yr ymatebwyr bod angen lleihau effaith twristiaeth ar yr amgylchedd. Mae'r ffocws ar hybu twristiaeth ryngwladol wedyn weithiau yn cael ei yrru gan ganfyddiad yr ymatebwyr bod angen cynyddu faint o amser mae'r ymwelwyr yn ei dreulio yma a'u gwariant. O ran pa farchnadoedd rhyngwladol i'w blaenoriaethu, câi'r canfyddiadau eu gyrru'n aml gan brofiadau'r ymatebwyr, gan gynnwys canfyddiadau o wariant ymwelwyr presennol a'r niferoedd presennol a ddaw o'r marchnadoedd penodol hynny.
- 7.4 Mae'r meysydd lle y mae anghytuno yn dangos mor amrywiol yw'r sector a'i bod yn bosibl nad oes barn glir a chyson gan y diwydiant. Mewn perthynas â blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn seilwaith, er enghraifft, cynigiodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau lleol iawn lle y teimlent fod angen buddsoddi. Roedd gan eraill wedyn safbwynt mwy cenedlaethol, ac yn ystyried bod cysylltedd ar draws y wlad yn rhwystr sylweddol. Nid yw'r data yn dangos tueddiadau clir yn y safbwyntiau ar draws gwahanol segmentau'r sector. Mae'n bosibl bod yr

amrywiaeth barn yn deillio o'r amgylcheddau gweithredu a'r heriau amrywiol sy'n wynebu busnesau ac unigolion ar draws y sector.

- 7.5 Mae hyn yn cynnig nifer o heriau i Groeso Cymru wrth ddatblygu eu Cynllun Gweithredu. Gallai rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth barn a safbwyntiau, a mynd i'r afael â hwy, ei gwneud yn anodd canfod cydbwysedd rhwng disgwyliadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Efallai y bydd yn rhaid cyfaddawdu. Hefyd, mae llawer o'r materion a'r heriau a godwyd gan yr ymatebwyr y tu allan i gylch gwaith Croeso Cymru. Mae hyn yn arwain at her bosibl o ran rheoli disgwyliadau a'r cyfle i greu cynghreiriau a phartneriaethau ac o ran amlygu a hyrwyddo buddion y sector oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac ar ei thraws.
- 7.6 Er eu bod, o bosibl, y tu allan i gylch gwaith Croeso Cymru, mae i lawer o'r heriau a'r blaenoriaethau a godwyd gan yr ymatebwyr fuddion posibl sy'n mynd y tu hwnt i dwristiaeth a'r economi ymwelwyr yn unig. Nid ymwelwyr yn unig sy'n elwa o fuddsoddi mewn seilwaith cysylltedd, er enghraifft. Mae hyn yn awgrymu, yn unol â bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y gallai ymagwedd sy'n ceisio cyfuno syniadau a gweithredoedd ar yr heriau sy'n wynebu cymunedau lleol yn ogystal â'r sector twristiaeth weithio er budd pawb.

8. Cyfeirnodau

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. [ar-lein]
Ar gael fan hyn: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>
[Darllenwyd 31 Gorffennaf, 2019].